# 7. UN O'R DEUDDEG

**Darllen:** Marc 14: 18-21

Cefais y fraint o ymuno â theulu Iddewig yn Jerwsalem i gadw'r Pasg. Aethom trwy ddefod y noson, mewn dwy ran, dan arweiniad y tad, fel y penteulu. Daeth y mab, bachgen deg oed, ato i ofyn y cwestiwn traddodiadol, '*Pam fod y noson hon yn wahanol i'r holl nosweithiau eraill?* a mynd ymlaen i ychwanegu'r pedwar cwestiwn manwl. Atebodd y tad trwy adrodd hanes y genedl yn llaw 'Tragwyddol ein Duw'. Yn ystod y noson, gyda darlleniadau, fe ddatblygodd trafodaeth ddiwinyddol frwd rhwng y tad a'r ddau fab hynaf, gyda phob un o'r tri yn dyfynnu eu hoff rabi. Cafwyd tipyn o anghytuno a dadlau bywiog, gydag ambell i doriad er mwyn cynnig cyfieithiad i'w gwesteion. Wrth i'r ddefod symud ymlaen, cafodd pawb wahoddiad i flasu'r gwahanol fwydydd symbolaidd yn eu tro. Parhaodd y ddefod gofio am tua dwy awr, ond nid dyna ddiwedd y noson, oherwydd ar ôl y cofio dechreuodd y dathlu, ac am ddeg o'r gloch y nos daeth y fam â thwrci enfawr a llysiau i'r bwrdd.

Rhaid mai ail ran y noson sy'n cael sylw gan yr Efengylwyr. Yn sydyn, dyma lais y gwestywr annwyl yn torri ar draws y bwyta tawel, anesmwyth: '*Yn wir, rwy'n dweud wrthych fod un ohonoch yn mynd i'm bradychu i, un sy'n bwyta gyda mi.'* Diddorol yw sylwi ar ateb y disgyblion yn ôl Marc: "*dechreuasant dristau a dweud wrtho, y naill ar ôl y llall, 'Nid myfi?' Dywedodd yntau wrthynt, 'Un o'r Deuddeg, un sy'n gwlychu ei fara gyda mi.'"* Mor debyg yw dynion a defaid: Dim ond i un frefu, dilyna'r lleill. Dim un o'r Deuddeg yn siŵr o'i hun!

*Ai am fy meiau i*
*dioddefodd Iesu mawr*
*pan ddaeth yng ngrym ei gariad ef*
*o entrych nef i lawr.*
*(John Elias, Caneuon Ffydd, 482*)

Gofynnodd Simon Pedr i Ioan i gael gwybod gan yr Arglwydd pwy oedd y bradwr. Tybed ai cywreinrwydd oedd yn ei feddiannu neu ofn mai ef a fyddai'n bradychu'r Meistr. Atebodd Iesu, '*Yr un y gwlychaf y tamaid yma o fara a'i roi iddo, hwnnw yw ef.'* Gyda hynny, cymerodd ddarn o fara a'i wlychu yn yr hylif neu'r sudd, a'i roi i'r gur gwadd ar y chwith iddo; arwydd o barch a chariad arbennig. Ar unwaith, ar ôl iddo

dderbyn y tamaid, cododd Jwdas a mynd allan o'r goleuni i dywyllwch y nos i fradychu ei gyfaill a'i Waredwr. '*Yr oedd hi'n nos'*, medd Ioan. Brawddeg fer sy'n llwyddo i ddweud cymaint. Brad! – dim ond rhywun y tu mewn i'r gymdeithas all fradychu; ni all brad ddod o'r tu allan. Ysgrifennodd rhywun am y rhyfel rhwng Ffrainc a'r Almaen yn 1870, gan ddweud bod pedair colofn yn ymosod ar Baris o du allan ac un o du fewn, a'r pumed oedd y mwyaf peryglus. '*Jwdas, un o'r Deuddeg',* werthodd Mab y Dyn i'w elynion. Aelod o'r eglwys, un ohonom ni oedd y bradwr!

Beth yw arwyddocâd y tri deg darn o arian? Ceir sôn am y tri deg darn arian ddwywaith yn yr Hen Destament. Yn ôl Llyfr Exodus 21: 32: '*Os yw'r ych yn cornio caethwas neu gaethferch, y mae ei berchennog i dalu i'r meistr ddeg sicl ar hugain o arian.*' Gwerthwyd Ceidwad y Byd am bris caethwas! Wedyn, yn Secharia 11: 12: '*A bu iddynt hwythau bwyso fy nghyflog, deg darn ar hugain o arian*'; bugail sy'n siarad yma, ac am y swm hwn y bradychwyd Bugail mawr y defaid gan un o'i uyn.

Ar hyd y canrifoedd, ymdrechodd llawer o bobl i ddod o hyd i esboniad am frad Jwdas. Cafwyd nifer o esboniadau ond dim ateb cyflawn! Trachwant, medd rhai. Dyna farn Ioan: '*lleidr ydoedd, yn cymryd o'r cyfraniadau yn y god arian oedd yn ei ofal'*(12: 6). Diwinyddiaeth anghywir, medd eraill: daeth Jwdas i gredu mai Iesu oedd y Meseia, Eneiniog yr Arglwydd, ond ymwrthododd â'i ddulliau. Un esboniad o '*Iscariot*' yw mai '*dyn y gyllell'* ydoedd, yn perthyn i'r Selotiaid, mudiad cudd a oedd yn gwrthryfela yn erbyn Rhufain. Ond, yn lle cael gwared â'r Rhufeiniaid trwy drais, nefol neu ddaearol, sôn a wnaeth Iesu am droi'r foch arall a charu gelynion, a maddau. Bu'n swpera gyda bradwyr a chwislingiaid, gan gynnwys rai o blith y Deuddeg.

Cred rhai mai uchelgais a berodd Jwdas i gefnu ar Iesu. Nid ynfytyn mohono: ar y dechrau edrychodd Jwdas ymlaen at gael swydd o bwys yn llywodraeth yr Israel newydd, ond erbyn hyn, daeth yn amlwg bod y Saer o Nasareth yn colli'r dydd a dyma un o'r Deuddeg yn mynd draw at y gelyn a fyddai'n ennill y dydd. A beth am eiddigedd? O blith y Deuddeg, Jwdas oedd yr unig ddeheuwr a'r lleill i gyd o Alilea. Dieithryn! Ai ei diwedd hi oedd cael ei hun yn ymddangos yn fach o flaen y gogleddwyr hyn i gyd ym Methania ar ôl iddo fynegi ei farn am y ferch yn gwastraffu ennaint drud. Rhaid iddo ddychwelyd at ei bobl ei hun.

Mae ffieidd-dra yn bosibilrwydd hefyd: Yr holl siarad yma am 'frenin yn was' ac am ddioddefaint -llwfrddyn ac nid cawr biau'r fath iaith. Cododd cyfog arno. Roedd Jwdas yn perthyn i'r rhai oedd yn gweiddi am ryddhau'r Iesu arall, Iesu Barabbas, yr ymladdwr dros ryddid ei bobl. Yng ngeiriau Dorothy L. Sayers: '*Bu'n ymladd drosom ni o'r blaen, ac fe ymladda drosom ni eto*.' Brwdfrydedd penboeth yw'r esboniad olaf: mae Iesu'n iawn ond mae'n boenus o araf yn symud. Yn ôl yr esboniad hwn, roedd Jwdas o'r farn bod rhaid achosi gwrthdrawiad er mwyn gorfodi Iesu i weithredu ar unwaith, yn lle oedi. Rhaid iddo herio'r Rhufeiniaid. Byddai hynny'n siu'r o gael y gwladgarwyr allan ar y stryd neu, wrth gwrs, byddai'r llengoedd o angylion yn dod o'r nef.

Mae'n bosibl dewis un neu ragor o'r esboniadau uchod. Ond, y mae yna un esboniad arall. '*Aeth Satan i mewn i Jwdas, hwnnw oedd un o'r Deuddeg'*, medd Luc 22: 3. Y frawddeg hon sydd wrth wraidd pob un o'r esboniadau eraill; dyma ffynhonnell pechod Jwdas a llawer iawn o bechodau eraill. Hanfod pechod yw 'Balchder', yr hunan yn y canol. Cerddodd Pedr ar y llwybr hwnnw hefyd ond dysgodd ei wers a throi yn ôl at Iesu. Dim ond trwy wahoddiad y gall Satan (o dan unrhyw enw arall) ddod i mewn. Dewis y tywyllwch a wnaeth Jwdas, gan fradychu Iesu. '*Pwy bynnag ohonoch sy'n ddibechod, gadewch i hwnnw fod yn gyntaf i daflu carreg*' (Ioan 8: 7). Unodd yr Iddewon â chenedl-ddynion i groeshoelio'r Crist.

Crogodd Jwdas ei hun. Onid hon yw trychineb mawr Jwdas? Yn wahanol i Pedr, ni arhosodd Jwdas i weld yr atgyfodiad a chlywed geiriau o faddeuant. Ond, ar y groes, gweddïodd Iesu dros Jwdas a Pedr a Pilat a Chaiffas a'r milwyr a'r lleill - a ninnau hefyd: '*O Dad, maddau iddynt, canys ni wyddant beth y maent yn ei wneud*' (Luc 23: 34). Dyma'r gair olaf am Jwdas yn yr Efengylau.

Ar ôl i Jwdas ymadael, rhoddodd Iesu orchymyn clir a phendant i weddill ei ddisgyblion a'u disgynyddion yn y Ffydd: '*Yr wyf yn rhoi i chwi orchymyn newydd'*. 'Mandatum novum' yw'r Lladin, sy'n rhoi i ni'r enw Saesneg am ddydd Iau Cablyd, sef *Maundy Thursday*. Dyma Ddydd Iau y Gorchymyn Newydd. A beth yw'r gorchymyn newydd? - '*Carwch eich gilydd. Fel y cerais i chwi yr ydych chwithau i garu eich gilydd.'* A tra bod Cristnogion yn parhau i ymwrthod â'i gilydd wrth ddadlau am gwestiynau yn ymwneud â phurdeb athrawiaeth a threfn eglwysig, mor hawdd ydyw inni anghofio gorchymyn mawr yr Arglwydd ei hun. Gwasanaethodd Iesu'r Deuddeg gan orchymyn wedyn iddynt

a ninnau hefyd wneud yr un modd, er mwyn cyflawni ei orchymyn, rhaid i bob un ohonynt a ninnau yn gyntaf ganiatáu iddo ein golchi'n lân o'n balchder a'n porthi gyda'i ras. '*Os bydd gennych y cariad hwn tuag at eich gilydd, wrth hynny bydd pawb yn gwybod mai disgyblion i mi ydych'* (Ioan 13: 34-35).

Diddorol yw sylwi ar yr hyn a wnaeth yr eglwysi gyda'r cof o ddigwyddiadau'r Swper Olaf - cadw defod y bara a'r gwin yn unig. Mae'n wir fod rhai heddiw yn ceisio adfer y ddefod golchi traed - ond nid golchi traed yw gorchymyn Crist, ond caru'n gilydd. Llawer haws cadw defodau o rannu bara a gwin a golchi traed na dilyn Crist a charu ein gilydd. Onid gwaith y defodau yw ein harwain a'n galluogi i wneud hynny?

**Gweddi:**

*Grist ein Ceidwad,*
*er i ni dy fradychu, dy wadu a throi oddi wrthyt,*
*yr wyt yn parhau i'n caru ac i ymofyn ein cariad ni.*
*Helpa ni i dderbyn dy faddeuant er mwyn dy adnabod yn well,*
*ac i ymddiried ein hunain i'th ofal a'th arweiniad di;*
*gweddïwn yn dy enw di. Amen.*